

Canolfan Ddiwylliant Conwy – y Newyddion Diweddaraf

Ionawr 2019

Yr adeilad



Ers ein cylchlythyr diwethaf ym Mis Medi mae'r gwaith adeiladu wedi symud yn ei flaen yn dda. Mae storfa gasgliadau'r islawr wedi'i hadeiladu a'i chapio ac mae'r waliau a'r lloriau sment gwrth ddŵr yn sychu. Bydd y gwaith o adeiladu llawr cyntaf yr adeilad unllawr yn dechrau cyn bo hir a gyda'r holl waith hyd yma wedi'i gwblhau yn ôl yr amserlen rydym yn rhagweld y bydd y Ganolfan yn agor ei drysau yn yr hydref eleni yn ôl y disgwyl.

Gwirfoddolwyr, digwyddiadau a hyfforddiant

Mae staff a gwirfoddolwyr yn brysur yn pacio ac yn cofnodi ein casgliadau amgueddfa ac archif yn barod ar gyfer symud. Gyda dros 200,000 o eitemau mae hyn yn dipyn o dasg, ond mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen yn dda. Mae sawl cwrs hyfforddi achrededig ar y gweill ar bynciau fel hanes llafar a hel achau. Os hoffech chi ddysgu mwy am gyfleoedd hyfforddiant cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion ar y newyddlen hon.

Mae Gwirfoddolwyr Treftadaeth Ifanc Conwy'n gweithio'n galed i gwblhau eu Cofnod Cyrhaeddiad mewn Diwylliant a Threftadaeth gyda chefnogaeth ac arweiniad Gwasanaeth Ieuencid Conwy.

Bydd Canolfan Ddiwylliant Conwy yn agor yn yr hydref a bydd yn cynnwys Llyfrgell Ardal newydd ar gyfer Conwy, Deganwy a Chyffordd Llandudno ynghyd â chasgliadau Archif ac Amgueddfa'r Sir, arddangosfeydd rhyngweithiol a man dynodedig ar gyfer y gymuned a'r celfyddydau.

Cymerwch ran!

 diwylliant.culture@conwy.gov.uk

 01492 576 139

 [diwylliantconwyculture](https://www.facebook.com/diwylliantconwyculture)

Noddir Canolfan Ddiwylliant Conwy gan Gronfa'r Loteri Fawr, Cronfa Gymunedol Gwynt y Môr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Llywodraeth Cymru (Adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd) a Rhaglen Datblygu Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020, a ariennir drwy Gronfa Amaethyddiaeth Ewrop gyfer Datblygiad Gwledig a Llywodraeth Cymru..

Canolfan Ddiwylliant Conwy Culture Centre

Porth i Hanes Sir Conwy

Gateway to the story of Conwy County

Mae rhai o'n pobl ifanc hefyd wedi cwblhau cwrs ffotograffiaeth achrededig yn canolbwyntio ar ddelweddau hanesyddol o dref Conwy.

Ymunodd Carwyn Jones â'r tîm ym mis Rhagfyr ar leoliad gwaith fel rhan o brosiect

Uchelgais Diwylliannol a noddir gan Gronfa'r Loteri Fawr. Gan weithio gyda'r Ganolfan Ddiwylliant a'i phartneriaid amrywiol, mae Carwyn yn ymgymryd â chymhwyster NVQ mewn Rheolaeth Treftadaeth Ddiwylliannol.



POBL LLANRWST PEOPLE



Mae'r arddangosfeydd ar gyfer y ganolfan newydd yn cael eu datblygu ar hyn o bryd. Rydym yn gweithio ar arddangosfa o'r enw 'Pobl Conwy' a fydd yn rhannu straeon a recordiadau sain rhai o'r cymeriadau sy'n byw

mewn cymunedau ar draws y sir. Os hoffech gyfrannu at yr arddangosfa cysylltwch â ni! Bydd yr artist digidol, Lisa Heledd Jones yn rhedeg siop straeon i ni yn Llyfrgell Llanrwst rhwng 21 a 26 Ionawr, felly os ydych yn yr ardal cofiwch alw i mewn am banded ac i rannu eich stori chi.

Rydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â'r Ganolfan Arwyddion, Golwg a Sain a'r wefan gymunedol leol 'Pwyntiau Hanes/History Points' i ddatblygu darnau o fideo gydag Iaith Arwyddion Prydain i gyd fynd â'r dehongliadau yn y Ganolfan newydd ac mewn safleoedd allweddol o amgylch tref Conwy. Rydym yn ddiolchgar i LEADER am gefnogi'r prosiect cyffrous hwn i greu Canolfan Ddiwylliant Tairieithog

Canolfan Ddiwylliant Conwy Culture Centre

Porth i Hanes Sir Conwy

Gateway to the story of Conwy County



Ysgol Bodlondeb

Yn ystod mis Tachwedd cynhaliodd ein hartist preswyl, Lisa Heledd Jones, siop straeon ac arddangosfa yng nghyntedd Llyfrgell Conwy. Casglodd Lisa dros 120 o gardiau sylwadau a siaradodd ag 20 o'r 300 o bobl a ddaeth drwy'r drws i siarad am, a chofio Ysgol Bodlondeb. Bydd yr ardd synhwyraidd yr ydym yn gobeithio ei datblygu ar y safle yn defnyddio dehongli i ddweud rhai o'r straeon hyn yn ogystal ag ail-ddefnyddio rhai elfennau o'r hen ysgol.



Canolfan Ddiwylliant Conwy Culture Centre

Porth i Hanes Sir Conwy

Gateway to the story of Conwy County